Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Beddgelert

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol gynhwysol a chartrefol hon, sy'n hyrwyddo'u lles yn effeithiol. Mae bron bob disgybl yn gwrtais ac yn barchus o'i gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda. Maent yn darparu ystod o weithgareddau ysgogol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn gofyn cwestiynau treiddgar sy'n effeithiol wrth adalw'r dysgu blaenorol a datblygu medrau meddwl y disgyblion. Ar gychwyn thema newydd, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion gyfrannu at yr hyn yr hoffent ddysgu. Mae hyn yn hybu diddordeb y disgyblion yn eu gwaith ac yn rhoi cyfle iddynt berchnogi'r themâu dysgu. Mae staff yn cynnig adborth pwrpasol ar lafar sy'n galluogi'r disgyblion i adnabod gwallau sillafu ac atalnodi yn eu gwaith. Er hyn, nid yw'r adborth bob amser yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion, yn enwedig y rhai hŷn, adnabod a gweithredu ar y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd bwriadus i ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad gan gynnwys eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau dros amser. Fodd bynnag, mae tueddiad i athrawon or-gyfarwyddo'r dysgu. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd digon pwrpasol o fewn y gweithgareddau dysgu i ddatblygu eu medrau yn gynyddol annibynnol.

Mae'r ymdeimlad o waith tîm yn gryf ar draws yr ysgol. Mae'r pennaeth yn cael ei chefnogi gan dîm bach o staff a chorff llywodraethol sy'n angerddol am yr ysgol. Gyda'i gilydd, maent yn cydweithio'n frwd i adnabod cryfderau'r ysgol a gweithredu ar y meysydd sydd angen eu gwella. Mae ffocws cadarn yn cael ei roi ar ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safon Cymraeg llawer o ddisgyblion. Mae arweinwyr a staff yn darparu gwybodaeth i rieni am ddigwyddiadau ac achlysuron o fewn yr ysgol. Er hyn, nid yw'r dulliau cyfathrebu yn ddigon effeithiol bob amser, ac nid yw rhieni'n derbyn digon o wybodaeth amserol am gynnydd eu plant nac er mwyn cefnogi, cynnal a gwella presenoldeb eu plant.

# Argymhellion

**A1 Darparu gweithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i ymestyn eu medrau hyd eithaf eu gallu wrth eu cymhwyso mewn gweithgareddau dysgu annibynnol**

**A2 Darparu adborth i ddisgyblion sy'n eu galluogi i adnabod a gweithredu ar y camau nesaf yn eu dysgu**

**A3 Cryfhau dulliau cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref, fel bod rhieni'n derbyn gwybodaeth yn amserol am gynnydd eu plant a chefnogaeth i wella'u presenoldeb**

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Beddgelert |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 31 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 21 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 13.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 47.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/04/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/11/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.